

**DEDDF PRIODASAU 1994****GOFYNION AC AMODAU  
CYMERADWYO EIDDO**

- 1.0 Rhaid i eiddo y bwriedir ei gymeradwyo ar gyfer cynnal priodasau sifil gyfarfod â'r gofynion cenedlaethol a ganlyn:-
- 1.1 Bod yr eiddo yn fan urddasol a gweddus ar gyfer cynnal seremoni priodas sifil.
- 1.2 Ei fod yn cwrdd â gofynion iechyd a diogelwch a thân.
- 1.3 Nad oes gan yr eiddo unrhyw gysylltiad diweddar na pharhaol ag unrhyw ymarfer neu grêd crefyddol.
- 1.4 Bod yr eiddo yn cynnwys ystafell(oedd) y gellir eu nodi fel y rhai sydd ar gael ar gyfer seremonïau priodas sifil ac sydd wedi eu gwahanu oddi wrth unrhyw weithgarwch arall yn ystod y seremoni (Dim ond yn yr ystall(oedd) hyn y gellir cynnal seremonïau).
- 2.0 Yn ogystal, nodir y gofynion ychwanegol a ganlyn:
  - 2.1 Gwaherddir gwerthu neu gymryd diod neu fwyd, ac ysmegu, yn yr ystafell am awr cyn ac yn ystod y seremoni, a hefyd am chwarter awr wedi'r seremoni.
  - 2.2 Lle mae'r eiddo wedi ei drwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol, rhaid bod darpariaeth ddigonol i guddio unrhyw far fel nad yw ei olwg yn amharu ar urddas y seremoni, ac fel nad oes unrhyw swm nac arogleuon yn ymyrryd â'r seremoni.
  - 2.3 Rhaid darparu ystafell ar wahân lle gall y Cofrestrydd gyfweled y cwpl, neu o leiaf rhaid sicrhau darpariaeth ddigon cyfrinachol i ganiatáu gwneud hynny'n ddidramgwydd.

**MARRIAGE ACT 1994****REQUIREMENTS AND CONDITIONS FOR  
APPROVING PROPERTY**

- 1.0 The property intended for approval for the conduct of civil weddings must meet the following national requirements:-
- 1.1 That the property is a seemly and dignified venue for the conduct of a civil wedding.
- 1.2 That it meets health and safety and fire requirements.
- 1.3 That the property has no recent or continuing connection with any religious creed or practice.
- 1.4 That the property includes a room or rooms which can be identified as those which are available for civil weddings ceremonies, and is separate from any other activity at the time of the ceremony (ceremonies may only take place within the room/those rooms).
- 2.0 In addition, the following additional requirements are noted:-
- 2.1 The sale or consumption of food or drink and smoking are prohibited in the room for one hour prior to and during the ceremony and for fifteen minutes after the ceremony.
- 2.2 Where the property is licensed for the sale of alcohol, there must be adequate provision to conceal any bar, so that its appearance does not affect the dignity of the ceremony and so that no noise or smell interferes with the ceremony.
- 2.3 A separate room must be provided for the Registrar to interview the couple, or there must at least be sufficiently confidential provision to permit this without impediment.

- |   |   |
|---|---|
| 2.4 Rhaid sicrhau bod mynediad rhwydd, di-dâl a hwylus i'r eiddo gan y cyhoedd yn gyffredinol ac, wrth gwrs, gan yr anabl.  | 2.4 There must be, free and without charge, ready access to the property for the public generally and, of course, the disabled.   |
| 3.0 Yn ogystal, gellir gosod amodau penodol mewn perthynas â'r Rhybudd Cymeradwyo. Bydd y rhain yn berthnasol i bob eiddo ond, yn ogystal, bydd gan y Swyddog Priodol yr hawl i osod amodau penodol ar gyfer adeiladau penodol. | 3.0 In addition, specific conditions in respect of the Notice of Approval can be imposed which are relevant to each property, but, in addition, the Proper Officer will have the right to impose specific conditions for specific properties. |
| 3.1 Rhaid i'r eiddo fod ar gael i'w ddefnyddio yn rheolaidd ar gyfer seremonïau priodas sifil.  | 3.1 The property must be available for regular use for civil wedding ceremonies.  |
| 3.2 Rhaid bod yna "berson cyfrifol" neu, yn ei habsenoldeb, ddirprwy â digon o awdurdod i sicrhau y cedwir at amodau'r caniatâd, ar gael am awr cyn y seremoni ac yn ystod y seremoni.  | 3.2 A "responsible person" or, in his or her absence, a deputy with sufficient authority to ensure compliance with the conditions of approval shall be available for one hour prior to the ceremony and during the ceremony.                  |
| 3.3 Rhaid hysbysu'r Swyddog Priodol o unrhyw newid yn yr eiddo, ei gyfeiriad, ei ddisgrifiad neu ei gynllun, ac yn enwau a chyfeiriadau y sawl sy'n dal y caniatâd neu'r person cyfrifol.                                       | 3.3 The Proper Officer must be informed of any changes in the premises, their address, description or layout, and the name and address of the holder of approval or responsible person.   |
| 3.4 Rhaid bod yr eiddo ar gael i'w archwilio gan y Cyngor ar unrhyw adeg resymol.   | 3.4 The premises must be available for inspection by the Council at all reasonable times.   |
| 3.5 Rhaid i'r Cofrestrydd Arolygol fod wedi cytuno ymlaen llaw i'r trefniadau ar gyfer y seremoni, ac i drefn y seremoni.   | 3.5 The arrangements for and conduct of the ceremony must meet with the prior approval of the Superintendent Registrar.   |
| 3.6 Pennir y nifer o westeion y gellid yn rhesymol eu cynnwys mewn ystafell fesul metr sgwar a chyfyngir y defnydd i'r nifer hynny.   | 3.6 The number of guests which can reasonably be included in a room per square metre will be set and the use will be limited to that number   |
| 3.7 Bydd yn ofynnol sicrhau bod staff y sefydliad yn deall goblygiadau arbennig bod yn fan ar gyfer priodas sifil.  | 3.7 It will be necessary to ensure that the establishment's staff are aware of the implications of being a venue for civil weddings.  |
| 3.8 Bydd yn ofynnol ymateb i ofynion y gwasanaeth o ran dodrefnu'r ystafell ar gyfer briodas a hwyluso'r trefniadau:-   | 3.8 It will be necessary to respond to the service's requirements in terms of the room for the wedding and facilitating the arrangements:-  |

- \* O leiaf un bwrdd a dau os yn bosib at ddefnydd y swyddogion cofrestru yn ystod y seremoni.
- \* Defnydd rhad ac am ddim o ffôn os oes rhaid i ddatrys unrhyw argyfyngau munud olaf gyda'r gofynion cyfreithiol ar gyfer priodi.
- \* Bydd angen darpariaeth barcio ddigonol ar gyfer y cyhoedd a hefyd llefydd parcio i'r swyddogion sy'n mynychu'r briodas fel eu bod yn medru gadael yn hwylus i find i unrhyw briodas arall ar yr un diwrnod.
- \* Rhaid dangos arwydd dwyieithog sydd yn cyhoeddi'r ffaith bod yr eiddo wedi ei gymeradwyo yn ôl geiriad a bennir gan y Swyddog Priodol ym mhob mynedfa gyhoeddus i'r eiddo am awr cyn a thrwy gydol y seremoni.
- \* At least one table and possibly two for the use of the registration officers during the ceremony.
- \* Free use of a telephone if it is necessary to solve any last minute problems with the legal requirements for marriage.
- \* There must be adequate car parking provision for the public and also parking spaces for the officers attending the wedding so that they can leave conveniently to attend another wedding on the same day.
- \* A bilingual sign announcing the fact that the property has been approved, and worded in accordance with the direction of the Proper Officer, must be displayed at each public entrance to the premises for one hour prior to the ceremony and throughout the ceremony.